

Cyfrinachedd

Dylai holl staff drin unrhyw wybodaeth bersonol a ddatgelir gyda sensitifrwydd â pharch fel y gellir datblygu perthynas wedi'i seilio ar ymddiriedaeth gan y bydd hyn yn annog myfyrwyr i geisio unrhyw gymorth sydd ei angen. Wrth ymdrin â gwybodaeth bersonol a sensitif, dylai staff gofio bod angen ei thrin fel data cyfrinachol ac felly dylent sicrhau eu bod yn cadw at Bolisi Gwarchod Data Prifysgol Bangor a pholisïau cysylltiedig, sy'n cydymffurfio â Ddeddf Gwarchod Data 1998. Mae hyn yn ymarferol yn golygu cymryd y materion a ganlyn i ystyriaeth:

- Ni ellir rhyddhau gwybodaeth am fyfyrwr i unrhyw un y tu allan i'r brifysgol heb ganiatâd y myfyrwr hwnnw. Mae hyn yn cynnwys rhieni ac aelodau agos o'r teulu.
- Rhaid i staff sy'n ymdrin â gwybodaeth sensitif gymryd pob cam posib i sicrhau ei bod yn cael ei chadw'n ddiogel.
- Bydd staff sy'n cyngori myfyrwyr yn gofyn am eu caniatâd i ddatgelu gwybodaeth sensitif a phersonol i bobl berthnasol. Wrth wneud hynny byddant yn hysbysu'r myfyrwr am y canlynol:
 - yr anfanteision o beidio â chaniatáu i wybodaeth bersonol gael ei rhannu
 - y manteision o gytuno i rannu gwybodaeth bersonol
 - beth sy'n cael ei gofnodi, sut mae'n cael ei gofnodi, a phwy sy'n gallu mynd at y wybodaeth a'i defnyddio.
- Lle mae myfyrwr yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhannu, caiff ei rhannu â chydweithwyr ar sail angen gwybod. Bydd y wybodaeth, boed yn ysgrifenedig neu ar lafar, yn cael ei chadw i gyn lleied o wybodaeth ag sydd ei hangen a bydd yn ffeithiol ac anfeirniadol. Er enghraifft, nid yw cais am gefnogaeth o angenrheidrwydd yn golygu datgelu'r rhesymau pam fod angen y gefnogaeth.
- Yn y sefyllfaoedd a ganlyn gall staff ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol i staff perthnasol heb ganiatâd penodol y myfyrwr. Os yw'r myfyrwr:
 - yn rhoi ei fywyd ei hun mewn perygl.
 - yn peryglu bywyd rhywun arall.
 - dan 18 oed ac yn dioddef niwed neu'n debygol o wneud hynny.
 - yn cael effaith niweidiol ar hawliau eraill.
 - yn cael effaith niweidiol ar les eraill.
 - ddim yn medru cadw at drefn weithredu a chysylltiadau dyddiol.
 - yn peryglu cywirdeb proffesiynol aelodau staff.
 - yn datgelu gwybodaeth sy'n effeithio ar les staff.
- Os ydych yn ansicr p'un a ddylech ddatgelu gwybodaeth heb ganiatâd y myfyrwr, gofynnwch am gyngor bob amser gan bennaeth y gwasanaeth perthnasol neu uwch reolwr.

- Yr un modd, mewn amgylchiadau eithriadol lle'r ystyrir bod angen datgelu gwybodaeth gyfrinachol i asiantaeth allanol, er enghraifft wrth ddelio gyda digwyddiad difrifol neu drosedd, dylid cyfeirio'r mater at Gwenan Hine, Pennaeth Cydymffurfio, i'w roi ar waith.
- Bydd staff sy'n cynghori myfyrwyr sy'n mynnu cyfrinachedd 100% yn rhoi gwybod iddynt y datgelir gwybodaeth i'r unigolion priodol dan yr amgylchiadau a restrir uchod, beth bynnag fo dymuniadau'r myfyriwr.
- Dylid cael gwared yn ddiogel ar wybodaeth bersonol a sensitif pan nad oes ei hangen mwyach.

SYLWCH:

- a) Mae canllawiau pellach ar ddefnyddio data ar gael gan y Tîm Polisi a Chydymffurfio Cyfreithiol. Cysylltwch â Lynne Hughes ar 2776 / l.hughes@bangor.ac.uk neu ewch i'w gwefan <https://www.bangor.ac.uk/planning/dataprotection/index.php.en> i weld y Polisi Gwarchod Data a pholisïau cysylltiedig.
- b) Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r Gwsanaeth Cynghori Myfyrwyr yn aelod sefydliadol o Gymdeithas Gynghori a Seicotherapi Prydain (British Association for Counselling and Psychotherapy - BACP) ac felly'n gweithio o fewn fframwaith moesegol y corff hwnnw ar arferion da mewn cynghori a seicotherapi. Edrychwch ar eu gwefan am fanylion: https://www.bangor.ac.uk/studentsservices/counselling/documents/Confidentiality_statement.pdf